**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

**18 Tachwedd 2016 (yb)**

**Ystafell Bwyllgor 1, Llangefni**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Lewis Davies
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Kenneth P. Hughes

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Gwen Griffith
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Dyfrig Jones
Cyng. John Brynmor Hughes
Cyng. John Wyn Williams
Cyng. Owain Williams

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Nia Haf Davies | Rheolwr - UPCC |
| Gareth Jones | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (CG) |
| Dylan Williams | Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM) |
| Eirian Harris | Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC |

**Ymddiheuriadau:**

Cyng. John Arwel Roberts (CSYM)
Cyng. John Pughe Roberts (CG)
Cyng. Ann Griffith (CSYM)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni chafwyd datganiadau personol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chafodd materion brys eu cyflwyno.

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2016 yn rhai cywir.

**5. ADRODDIAD DIWEDDARU (ar lafar)**

Cyflwynwyd diweddariad ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fel a ganlyn:

- Yr Archwiliad Cyhoeddus
- Gwrandawiadau
- Pwyntiau Gweithredu
- Newidiadau Materion sy'n Codi
- Camau Nesaf a'r Amserlen

**Archwiliad Cyhoeddus**

Mae'r Archwiliad yn rhoi cyfle i dystiolaeth (ysgrifenedig ac / neu ar lafar) ei ystyried gan yr Arolygydd. Mae'r Arolygydd angen sicrhau cadernid y Cynllun nid i wella / neu newid y Cynllun. Ar ddiwedd yr Archwiliad bydd yr Arolygydd yn cyflwyno Adroddiad Rhwymol i'r ddau Gyngor er mwyn iddynt fabwysiadu'r Cynllun.

**Gwrandawiadau**

Mae'r Gwrandawiadau yn rhan o broses yr Archwiliad. Cafodd y 'Gwrandawiadau' eu cynnal yn ystod mis Medi hyd at dechrau mis Tachwedd. Nid oes rhagor o wrandawiadau wedi cael eu rhaglennu ar hyn o bryd. 'Roedd swyddogion o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn bresennol ym mhob Gwrandawiad, a swyddogion eraill o'r Cynghorau, cynrychiolaeth gyfreithlon ac arbenigwyr yn bresennol yn ôl y galw.

Pwyntiau a godwyd:

- Holwyd os oedd yr Iaith Gymraeg wedi cael gwrandawiad teg, gan nodi byddai twf tai yn sicr o gael effaith ar yr iaith Gymraeg. Cyfeiriwyd at ganiatâd cwmni Land & Lakes i ddatblygu tir yng Nghaergybi;

Mewn ymateb:

- Mae tystiolaeth wedi cael ei gyflwyno gan y partïon i gyd i'r Arolygydd ac mae o wedi ei ystyried. Cafodd effaith y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth benodol yn ystod y Gwrandawiad cyntaf. Cafodd y lefel twf tai ei ystyried yn fanwl yn ystod yr ail Wrandawiad. Gofynnodd yr Arolygydd am fwy o wybodaeth ynglyn â'r sail i adnabod lefel twf tai yng Ngwynedd sy'n is na rhagolygon a baratowyd gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod sawl cyfranogwr wedi tynnu sylw'r Arolygydd i'r caniatâd cynllunio a enwyd.

**Pwyntiau Gweithredu**

Esboniwyd fod 111 o bwyntiau gweithredu wedi eu hadnabod gan yr Arolygydd. Nodwyd bod rhai pwyntiau yn gofyn am eglurhad ychwanegol am safbwynt y Cynghorau tra mae rhai angen tystiolaeth ychwanegol. Rhoddwyd enghreifftiau:

- Lefel twf tai Gwynedd yn is na'r rhagolygon Llywodraeth Cymru – adroddiad wedi ei gyhoeddi yn amlygu'r perthynas rhwng tai a gwaith.
- Lefel darpariaeth tir cyflogaeth yn Ynys Môn yn uwch na'r disgwyl.
- Nid oes dynodiad manwerthu yn y Cynllun.
- Pam mae angen polisi tai marchnad leol?
- Pam mae angen categori 'Clystyrau'? Anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau ar ran eu twf.
- Diweddaru Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy.
- Diweddaru tystiolaeth am y galw am wres ac ynni a chyfleoedd i'w cyfarch.
- Mireinio tystiolaeth ar dafluniad tai.
- Mireinio tystiolaeth ar ddarpariaeth tai fesul categori ac anheddle.

Gallir gweld manylder y Pwyntiau Gweithredu ar wefan y Cyngor.

Pwyntiau a Godwyd:

- Holwyd os oedd y ffigwr twf wedi ei gwestiynu, gan nodi nad yw'r boblogaeth gynhenid yn tyfu
- Holwyd faint o glystyrau sydd wedi eu tynnu allan o'r Cynllun.

Mewn Ymateb:

- Nodwyd bod Datganiad y Cynghorau i'r ail wrandawiad wedi rhoi eglurhad o'r lefel twf a ddewiswyd. 'Roedd y papur a baratowyd mewn ymateb i'r pwynt gweithredu am lefel twf tai ar gyfer Gwynedd yn egluro pam nad oedd rhagolygon Llywodraeth Cymru yn briodol. Cyfeiriwyd at ragolygon poblogaeth ac aelwydydd amgen 'dim mudo/ newid naturiol' yn dangos bod angen tai ychwanegol yn ystod oes y Cynllun.
- Nid oedd y wybodaeth am nifer y clystyrau sy'n destun newid arfaethedig ar gael gan y swyddogion. Mae'r wybodaeth ar gael yn y papur sy'n ymateb i'r pwynt gweithredu sydd yn Llyfrgell yr Archwiliad ar wefan y Cynghorau. Nodwyd bod gwrthwynebiad oddi wrth Llywodraeth Cymru a bod yr Arolygydd wedi mynegi pryder nad oedd y Cynghorau yn dehongli polisi cynllunio cenedlaethol yn gywir, yn benodol paragraff 4.7.7. Mireiniwyd y sail tystiolaeth i adnabod clystyrau i'w tynnu allan o'r Polisi. Hefyd, 'roedd newid materion sy'n codi yn argymell newid i'r polisi ar clystyrau, - yn lle cael uchafswm o 2 uned, mae'r polisi diwygiedig yn ffurfio is-ardaloedd a chael lefel twf dangosol fydd yn hyrwyddo'r twf ar eu cyfer.

**Newidiadau Materion sy'n Codi**

Esboniwyd fod Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) yn rhai bychan, ddim yn tanseilio'r strategaeth, yn gadarn ac yn gyson gyda'r Asesiad Cynaliadwyedd. Mae'r newidiadau yn cynnwys:

- Mireinio geiriad polisïau
- Newid cynnwys polisïau
- Dileu polisïau neu ychwanegu rhai newydd
- Symleiddio rhannu o'r Cynllun.

**Camau Nesaf a'r Amserlen**
Cafwyd manylion o'r Camau Nesaf sydd yn cynnwys:

- Cwblhau ymatebion i'r pwyntiau gweithredu
- Paratoi cofrestr o Newidiadau Materion sy'n Codi(NMC)
- Paratoi adroddiadau AC & ARhC
- Paratoi Cynllun Cyfansawdd
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar Gofrestr NMC, Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
- Adroddiad yr Arolygydd yn cael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor (Cyngor Llawn) ac i'w gyhoeddi yr un amser.
- Bydd gan y ddau Gyngor 8-wythnos i fabwysiadu'r Cynllun

Bydd sesiynau hyfforddiant/ codi ymwybyddiaeth i Aelodau a swyddogion yn cael eu trefnu.

Pwyntiau a Godwyd:

- Holwyd am broses CIL (Ardoll Seilwaith Cymunedol) a'i berthnasedd i'r iaith Gymraeg.
- Gofynnwyd sut mae sustem monitro yn mynd i weithio

Mewn Ymateb:

- Esboniwyd nad oedd CIL yn bodoli ar gyfer yr ardal ar hyn o bryd. Mae S106 yn parhau i gael ei ddefnyddio. Mae polisïau yn gallu gofyn am fesurau lliniaru os allir cydymffurfio a gofynion y Rheoliadau perthnasol.
- Esboniwyd bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor cyn ei yrru ymlaen i Lywodraeth Cymru. Dangosyddion, targedau a throthwyon y Fframwaith Fonitro fydd sail y gwaith monitro. Bydd rhaid adolygu'r Cynllun yn y pedwerydd blwyddyn, ond gallir gwneud hynny'n gynharach os fydd y gwaith monitro blynyddol yn dangos bod angen gwneud hynny.

**6. ADOLYGIAD O'R GWASANAETH POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (AR LAFAR)**

Cyflwynwyd prif negeseuon am yr adolygiad o'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd adroddiad gan Bennaeth Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM). Trafodwyd a chytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Panel (24 Mehefin 2016) fod angen adolygu trefniadau presennol yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. Ymddiheurwyd am y llithrad yn yr amserlen oherwydd pwysau gwaith a'r ffaith fod yr Archwiliad Cyhoeddus yn cymryd lle.

Mynegwyd canmoliaeth i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd y gwaith trylwyr.

Gwybodaeth Cefndirol:

- Cytunwyd fod Christian Branch (Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd - CSYM) yn ymgymryd â'r adolygiad ar ran Dylan Williams (Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd - CSYM) a Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd - CG).

- Anelir i gwblhau’r adroddiad yn yr wythnosau nesaf. Pwysleisiwyd fod yn bwysig i gwblhau’r broses a gweithredu i roi sicrwydd am ddyfodol yr uned a bod gofynion statudol cynllunio yn cael eu cyflawni.

- Cafodd holiadur ei amgylchu i swyddogion ac i’r Aelodau Lleol y ddau Gyngor yn ogystal â phartïon eraill efo diddordeb yn y gwasanaeth cynllunio ar y cyd.

Pwrpas yr Adolygiad:

- Darganfod effeithlonrwydd a phriodoldeb y trefniadau cydweithredol presennol.
- Amlinellu gwersi a ddysgwyd o’r trefniadau presennol a fydd yn dylanwadau a llywio trefniadau gweithio cydweithredol yn y dyfodol.
- Ystyried trefniadau ar gyfer dyfodol yr uned.

Casgliadau:

- Trefniadau'r Uned wedi bod yn llwyddiannus. Mae Cynghorau eraill drwy Gymru yn edrych ar y model.
- Sefydlwyd fod yr Uned wedi creu tîm cryf gydag arbenigedd a phrofiad yn y maes cynllunio.
- Mae cyd-weithio wedi arbed arain trwy gydol y broses o greu’r Cynllun.

Dyfodol:

- Argymell bod y gwasanaeth yn parhau a bod y gytundeb newydd yn parhau am 5 mlynedd.
- Angen cryfhau perchnogaeth o’r Uned o fewn y ddau Gyngor.
- Creu rhaglen gwaith clir a phendant i’r Uned ar ôl i’r Cynllun gael ei fabwysiadu.
- Angen trefniadau mwy pendant ar gyfer cyd-weithio ac integreiddio’r Uned gydag adain Rheolaeth Datblygu’r ddau Gyngor.